# Ymchwilio i effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag ymgymryd ag ymchwil i effeithiolrwydd y gwasanaethau y mae eich sefydliad yn eu darparu gyda'r nod o fynd i'r afael â cham-drin domestig neu drais rhywiol. Mae'n cynnwys cytuno ar amcanion ar gyfer ymchwil, gan nodi dulliau priodol a dadansoddi'r deilliannau. Fel rhan o'r safon hon, efallai bydd angen i chi ymchwilio i effeithiolrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill, lle bo hynny'n briodol.

Bydd ymchwil y byddwch yn ei wneud yn cynnwys ceisio barn unigolion sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol a bydd angen ymgymryd â'r ymchwil mewn modd sensitif i anghenion unigolion, yn ogystal â bodloni polisïau a gweithdrefnau eich sefydliad a gofynion rheoleiddio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. archwilio'r angen am weithgareddau ymchwil, diben y gweithgareddau a'r gofynion ar gyfer y gweithgareddau ymchwil, gyda phobl eraill
2. nodi a chasglu gwybodaeth ofynnol sy'n llunio gweithgareddau ymchwil arfaethedig
3. nodi gofynion ar gyfer ymchwil arfaethedig, gan gynnwys: • amserlen
• adnoddau
• cyllideb
4. gweithredu prosesau ar gyfer cael gwybodaeth ac adborth gan bobl eraill, sy'n bodloni anghenion ymchwil y cytunwyd arnynt
5. cyfathrebu ag eraill mewn ffyrdd sy'n helpu i gyflawni deilliannau dymuniedig yr ymchwil ac sy'n briodol i'r ymatebwyr sy'n cymryd rhan
6. monitro gweithgareddau ymchwil a chynnydd yn erbyn cynlluniau, cyllidebau ac amcanion cysylltiedig y cytunwyd arnynt
7. nodi amrywiannau i gynlluniau ymchwil a'r gyllideb gytunedig a chymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
8. cyfuno ac asesu adborth gan eraill, fel y bo gofyn, i lywio gweithgareddau a gofynion ymchwil
9. nodi tueddiadau a phatrymau a all lywio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol yn unol â dulliau ymchwil
10. mynegi unrhyw ragdybiaethau a wnaed a risgiau sy'n gysylltiedig wrth ddadansoddi data, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
11. nodi camau i'w cymryd i ymateb i adborth gan eraill, sy'n gwella gallu eich sefydliad i fodloni gofynion rhanddeiliaid
12. cyflwyno syniadau a gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth gan bobl eraill
13. cynnal cofnodion cyfredol o ddadansoddiadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
14. rhoi gwybod i bobl eraill am ganlyniadau dadansoddiadau gan ddefnyddio fformatau sy'n bodloni eu hanghenion ac sy'n addas i'r wybodaeth a roddir
15. cymryd camau i sicrhau bod pobl eraill sy'n gysylltiedig yn cydymffurfio â gofynion yn ystod gweithgareddau ymchwil

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt.
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. sut mae gwasanaethau asiantaethau a sefydliadau eraill yn perthyn i'r gwasanaethau y mae eich sefydliad chi yn eu darparu
5. beth yw cam-drin domestig a thrais rhywiol, a pha mor gyffredin ydyw yn eich cymuned leol.
6. pwysigrwydd cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a moesegol perthnasol sy'n gysylltiedig ag ymchwilio ymhlith rhanddeiliaid, gan gynnwys unigolion.
7. mathau o wybodaeth a ffynonellau gwybodaeth a all hwyluso gwneud penderfyniadau a chynllunio gweithredu effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau i unigolion sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin domestig neu drais rhywiol
8. dulliau o gael adborth gan unigolion a rhanddeiliaid eraill
9. cryfderau a chyfyngiadau gwahanol ddulliau o gael adborth
10. dulliau a thechnegau ymchwil
11. sut i nodi tueddiadau a phatrymau
12. pwysigrwydd sicrhau bod y bobl sy'n ymwneud â'r ymchwil yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau a dulliau o gyflawni hyn
13. sut i ddewis technegau cyfathrebu sy'n briodol i wahanol ymatebwyr ac sy'n bodloni gofynion y prosiect ymchwil
14. pwysigrwydd sicrhau gwrthrychedd wrth werthuso adborth
15. ffactorau i'w hystyried wrth asesu dilysrwydd adborth
16. sut i ddadansoddi buddiannau'r rhai sy'n rhoi adborth, gan gynnwys y goblygiadau i'r adborth a roddir
17. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
18. rhwystrau cyffredin rhag cyfathrebu a ffyrdd o'u goresgyn
19. pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'ch gwerthoedd a'ch credoau eich hun a'r effaith y gall eich gwerthoedd a'ch credoau eich hun ei chael wrth weithio gydag unigolion.

## Geirfa